

GWASANAETH ARCHIFAU SIR DDINBYCH

POLISI MYNEDIAD AC ESTYN ALLAN

1. Cyflwyniad

- 1.1 Mae Cyngor Sir Ddinbych yn awdurdod llywodraeth leol, sy'n gweinyddu ardal sy'n cynnwys rhannau o gyn siroedd Sir Ddinbych, Sir y Fflint a Meirionnydd, a ddaeth i fodolaeth ar 1 Ebrill 1996. O ganlyniad o'u cyn-bolisïau casglu, mae rhai cofnodion sy'n ymwneud â'r sir bresennol wedi'u cadw yng ngwasanaethau archifau cyfagos.
- 1.2 Yn ôl y cynllun ar gyfer darparu Gwasanaeth Archifau Sir Ddinbych dan ofynion Adran 60 Deddf Llywodraeth Leol (Cymru) 1994, mae Cyngor Sir Ddinbych yn cytuno i weinyddu Archifau Sir Ddinbych a chymryd cyfrifoldeb o'r casgliadau presennol. Mae Archifau Sir Ddinbych (a elwid gynt yn Swyddfa Cofnodion Sir Ddinbych) wedi bod mewn bodolaeth ers 1972.
- 1.3 Mae Gwasanaeth Archifau Sir Ddinbych, wedi'u penodi gan yr Arglwydd Ganghellor fel ystorfa ar gyfer cofnodion cyhoeddus dan adran 4(1) Deddf Cofnodion Cyhoeddus 1958. Caiff ei adnabod gan Gorff Cynrychiadol yr Eglwys yng Nghymru, fel ystorfa ar gyfer cofnodion plwyfol o fewn yr ardal a ddiffiniwyd gan ei gytundeb â Gwasanaeth Archifau Sir Ddinbych.
- 1.4 Mae Gwasanaeth Archifau Sir Ddinbych yn cadw at y ddeddfwriaeth archifau gyfredol, sy'n cynnwys;
 - Deddf Cofnodion Cyhoeddus 1958
 - Deddf Cofnodion Llywodraeth Leol 1962
 - Deddf Llywodraeth Leol (Cymru) 1994
 - Deddf Diogelu Data, 1998
 - Deddf Rhyddid Gwybodaeth, 2000
 - Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol, 2004

2. Datganiad Cenhadaeth neu Ein Hamcanion

- 2.1 Prif ddyletswydd Gwasanaeth Archifau Sir Ddinbych yw cadw treftadaeth ddogfennol y Sir ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol, wrth alluogi a hyrwyddo mynediad i'r cyhoedd.
- 2.2 Ein prif amcanion i sicrhau hyn yw;
 - A. Casglu casgliadau archif
Lleoli a chronni archifau sydd o bwysigrwydd hanesyddol i Sir Ddinbych.
 - B. Diogelu a chadw casgliadau archif
Diogelu casgliadau unigryw ac anamnewidiadwy drwy ddarparu storfa addas a rheolaeth broffesiynol ohonynt.
 - C. Catalogio a mynegeo casgliadau i sicrhau bod y cynnwys yn hygyrch.
Trefnu a gosod y casgliadau mewn ffordd sy'n galluogi i'r ymchwilwyr ddarganfod yr hyn maent ei angen yn rhwydd.
 - D. Darparu a hybu mynediad at gasgliadau archif.

Goruchwylio ac annog pobl i ddefnyddio'r ystafell ymchwil gyhoeddus ddi-dâl wrth ddarparu gwasanaethau amgen i ymchwilwyr o bell.

3. Amcanion Polisi Mynediad

- 3.1 Amcan y polisi yw amlinellu sut yr ydym yn bwriadu sicrhau ein bod yn cwrdd â'n hamcanion gwasanaeth trosfwaol, yn benodol;

D. Darparu a hybu mynediad at gasgliadau archif.

- 3.2 Mae'r polisi yn dangos sut y darperir mynediad at archifau ar y safle ac o bell ac unrhyw gyfyngiadau sy'n effeithio ar fynediad at ddeunydd archif.

- 3.3 Mae Gwasanaeth Archifau Sir Ddinbych yn cadw at Strategaeth Gwasanaeth Cwsmeriaid ar gyfer Cyngor Sir Ddinbych (CSD o hyn allan): *Dull Sir Ddinbych¹ a Safonau'r Iaith Gymraeg.²*

- 3.4 Mae'r polisi hwn yn cefnogi ein datganiad cenhadaeth fel y gwelir uchod a dylid ei ddefnyddio'n unol â Chynllun Gwaith Gwasanaeth Archifau Sir Ddinbych sy'n nodi'r cynlluniau ar gyfer y blynyddoedd i ddod a'r llwyddiannau blaenorol.

4. Mynediad i safle Archifau Sir Ddinbych

- 4.1 Mae mynediad at gasgliadau ar gael i'r holl fudd-ddeiliaid a'r gymuned ehangach³ yn ein hystafell ymchwil sydd yn cael ei goruchwylio gan staff yr archifau. Mae'r ystafell yn rhad ac am ddim i'w defnyddio ond rhaid talu i ddefnyddio rhai gwasanaethau ychwanegol.⁴

4.2 Archebu lle a chyrraedd

Byddai'n well pe baech yn archebu lle i ddefnyddio'r ystafell ymchwilio ond nid yw'n hanfodol. Gellir archebu lle ar-lein, drwy anfon e-bost neu ffonio a chysylltu â staff y swyddfa.

Mae arwydd ar y stryd i gyfeiriad y swyddfa ac arwyddion pellach ar y safle ei hun i dywys ymchwilwyr i'r adran briodol o'r adeilad ac i'r ystafell ymchwilio. Mae gofyn i'r ymchwilwyr arwyddo i mewn wedi iddynt gyrraedd a dilyn rheolau'r ystafell ymchwil.⁵

Mae gofyn i ymchwilwyr gyflwyno prawf adnabod i ddefnyddio'r ystafell ymchwil ac i gael mynediad at ddogfennau gwreiddiol. Mae Gwasanaeth Archifau Sir Ddinbych yn aelod o Rwydwaith Ymchwil Archifdai Sirol ac mae gofyn i ymchwilwyr gytuno â'r cynllun yn ystod eu hymweliad cyntaf a chyflwyno'r tocyn bob tro wedi hynny. Caniateir yr ymweliad cyntaf heb y dull adnabod perthnasol, ond bydd angen i'r ymchwilydd lenwi tocyn ymwelydd dros dro.

¹ <https://www.denbighshire.gov.uk/cy/eich-cyngor/strategaethau-cynlluniau-a-pholisiau/strategaethau-corrforaethol/strategaeth-gwasanaeth-cwsmeriaid.aspx> [cyrchwyd ddiwethaf Gorffennaf 2016]

² <https://www.denbighshire.gov.uk/cy/eich-cyngor/strategaethau-cynlluniau-a-pholisiau/safonau-iaith-gymraeg.aspxrds.aspx> [cyrchwyd ddiwethaf Gorffennaf 2016]

³ Gweler Atodiad 1: Ein Cymuned a Budd-Ddeiliaid

⁴ Gweler y ffioedd cyfredol yn <http://archifau.sirddinbych.gov.uk/amdanom-ni/gwasanaethau/>

⁵ Gweler rheolau'r ystafell ymchwil yn <http://archifau.sirddinbych.gov.uk/amdanom-ni/rheolau-yr-ystafell-ymchwil/>

4.3 Diogelwch

Er mwyn gwarchod ein casgliadau a'n hadeiladau hanesyddol mae nifer o fesurau diogelwch ar waith. Mae hyn yn cynnwys:

- Goruchwylio'r ystafell ymchwil drwy'r amser
- Monitro'r ystafell ymchwil â theledu cylch caeedig yn ogystal ag ardaloedd cyhoeddus eraill yn yr adeilad.
- Cyfyngu'r nifer o ddogfennau sy'n cael eu rhoi i ymchwilwyr.
- Canllawiau Trin
- Rheolau'r Ystafell Ymchwil

4.4 Cyfleusterau Ymchwil

Mae'r ystafell ymchwil yn cynnwys copïau caled o'r holl gatalogau a chymhorthion chwilio eraill (gan gynnwys mynegai pwnc, lle a pherson, mynegai ewyllysiau a chymhorthydd chwilio cofrestr plwyf. Mae'r rhain yn helpu ymchwilwyr i adnabod dogfennau a fuasai o bosib o ddiddordeb i'w gwaith ymchwil.

Mae llyfrgell gyfeirio yr ystafell ymchwil hefyd ar gael ar silffoedd agored sy'n cynnwys deunydd eilaidd, megis llyfrau cyfeirio, pamffledi a chyhoeddiadau astudiaethau lleol.

Mae canllawiau ymchwil wedi'u hargraffu hefyd ar gael, sydd wedi'u creu gan staff i egluro'r casgliadau amrywiol a gedwir gan Wasanaeth Archifau Sir Ddinbych. Mae'r rhain wedi'u trefnu yn ôl pwnc h.y. trosedd, addysg ac iechyd.

Mae cyfrifiaduron hefyd ar gael â mynediad at y we, gwefannau hanes teuluoedd a phecyn Microsoft Office diweddar. Mae darllenwyr microffilm a microfishe hefyd ar gael i weld ffynonellau ar gael ar ffilm neu fiche.

4.5 Staff Archifau

Mae'r ystafell ymchwil wedi'i goruchwylio drwy'r amser gan staff cydwybodol a phrofiadol. Mae staff yn ymwneud â'r ymchwilwyr yn unol â pholisi CSD *Dull Sir Ddinbych*. Mae staff yn gwrtais, proffesiynol ac o hyd yn ceisio cynnig cymorth i'r ymchwilwyr, a'u trin yn deg a gyda pharch.

Mae staff ar gael i dywys ymchwilwyr at y casgliadau perthnasol, eu hyfforddi ar sut mae'r casgliadau wedi'u trefnu a'u rhestru, a sut i ddefnyddio'r cyfarpar.

4.6 Trin Dogfennau

Mae'n rhaid i ymchwilwyr gadw at y canllawiau ar Drin Dogfennau⁶ sydd ar gael cyn iddynt ymweld unai ar-lein neu yn yr ystafell ymchwil.

Mae staff ar gael bob amser i roi cyngor ar y ffordd orau o drin dogfennau a chynnig defnydd o'r pwysau a chynhalwyr llyfr.

Weithiau, mae copi dirprwyol ar gael o rai mathau o ddogfennau. Mae'r catalogau a chymhorthion chwilio yn nodi os mai dyma yw'r achos.

⁶ Gweler *Trin Dogfennau*

4.7 **Llungopïo dogfennau**

Gellir darparu copïau o ddogfennau drwy lungopïo, sganio neu ffotograffiaeth.

Yn eithrio ffotograffiaeth, dim ond aelod o staff all wneud y copïau. Wrth ddarparu copïau mae Gwasanaeth Archifau Sir Ddinbych yn ystyried y ffactorau canlynol;

- Hawlfraint a hawliau eiddo deallusol eraill
- Amodau wedi'u rhagnodi gan y rhoddwr neu'r adneuwr.
- Diogelu data a gwybodaeth bersonol sydd yn y ddogfen
- Natur a chyflwr y ddogfen.

Rydym yn codi tâl am wneud copïau a rhaid i'r ymchwilydd lenwi ffurflen datganiad hawlfraint cyn y gellir gwneud copïau.⁷

Rydym yn annog defnyddio camerâu yn yr ystafell ymchwil. Mae gofyn i ymchwilydd ddarllen datganiad yn ymwneud â delio teg a hawlfraint a llenwi ffurflen ganiatâd camera digidol⁸. Rydym yn codi tâl am drwydded ffotograffiaeth.

4.8 **Cyfyngiadau ar fynediad**

Mae cyfyngiadau mynediad ar rai mathau o ddogfennau. Mae nodiadau cyfyngiad i'w gweld ar gopi caled a chatalogau ar lein. Mae'r nodiadau cyfyngu hyn yn pennu'r rheswm dros y cyfyngiad a'r dyddiad y bydd y cyfyngiad ar y ddogfen neu gasgliad yn dod i ben.

Cyfyngir mynediad at ddogfennau pan

- a) mae'r ddogfen yn rhy fregus a buasai'i defnyddio yn ei difrodi ymhellach
- b) mae'r ddogfen neu gasgliad yn ddarostyngedig i gyfyngiadau deddfwriaethol h.y. mae'n cynnwys gwybodaeth bersonol neu sensitif
- c) nad yw'r casgliad wedi'i gatalogi
- d) mae'r adneuwr neu gorff creu wedi nodi neu gytuno ar gyfnod cau.

Mae mwy o wybodaeth am ein cyfyngiadau ar fynediad i'w gael yn yr ystafell ymchwil neu ar-lein.⁹

Am fwy o wybodaeth ar Bolisi Hawl i Wybodaeth Cyngor Sir Ddinbych, ewch i ymweld â'r dudalen wefan Hawl i Wybodaeth.¹⁰

4.9 **Mynediad**

Mae Cyngor Sir Dinbych yn ymroddedig i ddathlu amrywiaeth a hybu cydraddoldeb i wella ansawdd bywyd pawb sy'n byw, gweithio neu ymweld â Sir Ddinbych. Er mwyn

⁷ Gweler *Ffurflen archebu llungopiau*

⁸ Gweler *Ffurflen ganiatâd camera digidol*

⁹ Gweler y cyfyngiadau mynediad ar- <http://archifau.sirddinbych.gov.uk/amdanom-ni/mynediad/>

¹⁰ <https://www.denbighshire.gov.uk/cy/eich-cyngor/cyrchu-gwybodaeth/cyrchu-gwybodaeth.aspx>

sicrhau bod mynediad i'r safle ar gael i'r ymchwilwyr sydd ag anableddau corfforol, mae gennym y cyfleusterau canlynol,

- Safleoedd parcio ar gyfer deiliaid bathodyn glas.
- Rampiau allanol a mynediad i'r adeilad ar y llawr gwaelod. Liff t i holl ardaloedd cyhoeddus yn yr adeilad.
- Mae dolen sain ar gael i'r rheiny sydd â thrafferthion clyw.
- Rydym yn annog a chefnogi ymweliadau cymorth.
- Gellir addasu cyfrifiaduron a microfilmiau.
- Mae chwydd wydrau ar gael i'r rheiny sydd ag amhariadau ar eu golwg.

Mae Gwasanaeth Archifau Sir Ddinbych, fel gwasanaeth cyhoeddus, yn cadw at Ddeddf Cydraddoldeb (2010).¹²

5. Mynediad o Bell

5.1 Yn ychwanegol i fynediad i'r safle, mae Gwasanaeth Archifau Sir Ddinbych hefyd yn darparu mynediad at gatalogau a deunyddiau ar-lein mewn amryw o ffyrdd.

5.2 Gwefan

Er mwyn datblygu a chynyddu mynediad o bell at gasgliadau Gwasanaeth Archifau Sir Ddinbych, cafodd gwefan gwasanaeth ei dylunio a'i lansio yn 2016.

Caiff yr holl wybodaeth am y gwasanaeth ei gadw'n gyfredol ac mae ar gael ar y wefan. Amcan Gwasanaeth Archifau Sir Ddinbych yw diweddarau tudalennau'r wefan fel bo'n briodol gan ychwanegu cynnwys newydd a gwybodaeth am y casgliadau fel y daw'n hysbys.

Mae'r wefan yn galluogi ymchwilwyr o bell i;

- Edrych ar ganllawiau ymchwil, wedi'u trefnu yn ôl pwnc, sy'n egluro i'r ymchwilwyr y mathau o adnoddau sydd ar gael a'r wybodaeth maent yn eu cynnwys.
- Cofrestru am gyfrif ymchwilydd
- Edrych ar y cofnodion catalog o gronfa ddata Materion Cyfansoddiadol a Rheoli Deddfwriaeth¹³.
- Gwneud sylwadau a thagio eitemau o fewn y casgliad
- Edrych ar luniau digidol o gasgliadau lle maent ar gael neu wneud cais am gopi.
- Arbed eitemau o ddiddordeb mewn "rhestr ddymuniadau" yn barod ar gyfer ymweliad yn y dyfodol.
- Cyflwyno ymholiad ar-lein (gweler ymholiadau o bell isod)
- Trefnu ymweliad â'r archifdy gan gynnwys cyfarpar penodol megis darllynydd microffilm, tabl map neu gyfrifiadur.
- Gwneud taliadau ar gyfer copïau neu wasanaethau eraill ar-lein.

¹²<https://www.denbighshire.gov.uk/cy/eich-cyngor/cyrchu-gwybodaeth/cydraddoldeb-amrywiaeth-a-hawliau-dynol.aspx>

¹³ Er gwybodaeth: Mae rhan o'r daliadau i gyd ar gael. 35% ar hyn o bryd. Rhag 2016.

5.3 Ymholiadau o bell

Mae Gwasanaeth Archifau Sir Ddinbych yn cynnig cyngor a chymorth i ymchwilwyr nad ydynt yn gallu ymweld â'r swyddfa'n bersonol. Gellir anfon ymholiadau at Wasanaeth Archifau Sir Ddinbych drwy ebost, llenwi ffurflen ar-lein, cyfryngau cymdeithasol, ffôn neu bost.

Mae Gwasanaeth Archifau Sir Ddinbych yn ymateb i ymholiadau yn unol â Strategaeth Gwasanaeth Cwsmer CSD: *Dull Sir Ddinbych*. Bydd Gwasanaeth Archifau Sir Ddinbych yn;

- Cydnabod e-bost neu ymholiad ar-lein cyn gynted â phosib ac yn ymateb o fewn 10 diwrnod gwaith
- Ateb eich galwad cyn gynted â phosib a gwneud yn siŵr bod eich ymholiad neu gais yn cael ei gyfeirio at y person iawn y tro cyntaf.
- Ysgrifennu'n ôl cyn gynted â phosib neu o fewn 10 diwrnod gwaith ag ateb.

Cynigir cyngor neu ymholiad ymchwil byr yn rhad ac am ddim. Gellir gwneud ymchwiliadau byrion eraill am ffi fechan.¹⁴

Os oes angen ymchwiliad manwl yn llawn dyfnder, gellir talu aelod o staff i gwblhau'r ymchwil mewnol, er mwyn arbed i chi ymweld â'r swyddfa.¹⁵

5.4 Cyfryngau Cymdeithasol

Mae offer cyfryngau cymdeithasol yn darparu'r gwasanaeth â ffordd arall o gyfathrebu â budd-ddeiliaid presennol a rhai'r dyfodol. Mae Gwasanaeth Archifau Sir Ddinbych yn defnyddio'r sianelau cyfryngau cymdeithasol canlynol â'r bwriad o gyrraedd cynulleidfa ehangach a hyrwyddo'r gwasanaeth.

- Mae Tudalen Wasanaeth Facebook yn bresenoldeb newydd ar y we sy'n cynnig cyrchiad sydyn i amseroedd agor a manylion lleoliad. Fe'i defnyddir i rannu testunau blog, cyfleoedd gwirfoddoli a storïau newydd. Caiff hefyd ei ddefnyddio i ddilyn sefydliadau eraill a chyfathrebu â grwpiau hanes lleol.
- Blog: newyddlen ar-lein yn galluogi ymchwilwyr i ddilyn y blog a derbyn e-bost awtomatig pan fydd blog newydd yn cael ei gyhoeddi.

Amcan Gwasanaeth Archifau Sir Ddinbych yw diweddarau'r tudalennau cyfryngau cymdeithasol fel bo angen, cyhoeddi newyddion a chynnwys arall mor aml â phosib

5.5 Estyn Allan a Digwyddiadau

Nod Gwasanaeth Archifau Sir Ddinbych yw hyrwyddo defnydd o'r gwasanaeth drwy;

- Hyrwyddo a galluogi defnyddio'r archifau.
- Rhoi gwybod i bobl am bwysigrwydd dogfennu treftadaeth.
- Dweud wrth ein budd-ddeiliaid am ein casgliadau a'n gwasanaethau.
- Annog pobl i gymryd rhan mewn mentrau cenedlaethol, megis Ymgyrch Archwilio eich Archif.
- Cyfarfod â disgwyliadau ein cwsmeriaid

¹⁴ Gweler y newidiadau cyfredol ar <http://archifau.sirddinbych.gov.uk/amdanom-ni/gwasanaethau/>

¹⁵ Gweler y ffurflen gwasanaeth ymchwil ar <http://archifau.sirddinbych.gov.uk/amdanom-ni/ymchwil-proffesiynol/>

- Defnyddio'r gwasanaeth archifau i gefnogi blaenoriaethau CSD

Ewch i'r wefan am fwy o wybodaeth am weithgareddau a digwyddiadau estyn allan.

6. Adborth

Mae sylwadau a chwynion yn cael eu cofnodi a'u hateb fel bo'n briodol, yn unol â gweithdrefn gwyno Cyngor Sir Ddinbych.

Caiff asesiad ffurfiol o'r gwasanaeth ei gynnal yn flynyddol drwy gais ar gyfer Achredu a'r Arolwg Ymwelwyr ARA [Arolwg PSQG ynghynt]

7. Adolygu a Diwygio

Bydd y polisi hwn yn cael ei adolygu fel bo'n briodol, ond o leiaf un waith bob pum mlynedd..

8. Dyddiad Adolygu Nesaf

Mawrth 2022

Polisi Mynediad Atodiad 1

Archifau Sir Ddinbych: Ein Cymuned a Budd-Ddeiliaid

Ein Cymuned

Mae'r gymuned mae Archifau Sir Ddinbych yn ei gwasanaethu yn cynnwys poblogaeth Sir Ddinbych ac yn ymestyn i unrhyw un o Gymru, y Deyrnas Unedig neu'n Rhyngwladol sydd â diddordeb yn hanes Sir Ddinbych. Mae hyn yn cynnwys, ond nid yn gyfyngedig i -

- Ddefnyddwyr presennol
- Ddefnyddwyr yn y dyfodol
- Myfyrwyr
- Grwpiau cymuned, clybiau a chymdeithasau.
- Swyddogion Cyngor Sir Ddinbych (CSDd)
- Cynghorwyr Cyngor Sir Ddinbych
- Grwpiau ysgol
- Adnewwyr

Mae'r gymuned yr ydym yn ei gwasanaethu hefyd yn ymestyn tu hwnt i ffiniau'r sir. O ganlyniad i newidiadau i'r ffin yng Ngogledd Cymru, mae ein casgliadau'n cynrychioli hanes Sir Ddinbych cyn 1974 a sefydliad Cyngor Sir Clwyd. Felly, mae ymchwilwyr o ardaloedd o fewn ffiniau CBS Conwy a CBS Wrecsam hefyd yn rhan o'n cymuned.

Ein Budd-ddeiliaid:

Mae'n budd-ddeiliaid yn cynnwys-

- aelodau'r gymuned (fel yr amlinellwyd uchod)
- trethdalwyr sy'n byw yn Sir Ddinbych
- Cynghorwyr sir, tref a chymuned.
- Swyddogion Cyngor Sir Ddinbych
- gweithwyr
- gwirfoddolwyr
- cyflenwyr
- adnewwyr
- y sector archifau ehangach